CYLCHLYTHYR RHIENI/GOFALWYR

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Hydref 2026

Ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc mewn addysg brif ffrwd

Croeso

Croeso i gylchlythyr yr hydref i rieni a gofalwyr. Mae blwyddyn ysgol newydd yn dod â chyfleoedd newydd a phenderfyniadau pwysig i bobl ifanc. P'un a yw'ch plentyn wedi dechrau grŵp blwyddyn newydd, wedi symud ymlaen i'r coleg neu'r chweched dosbarth, neu'n dechrau meddwl am ei ddyfodol, mae Gyrfa Cymru yma i helpu.

Y tymor hwn, bydd ein cynghorwyr gyrfa yn gweithio gydag ysgolion a cholegau ledled Cymru i gynorthwyo pobl ifanc wrth iddynt edrych ar eu hopsiynau a chynllunio eu camau nesaf.

Byddwn hefyd yn gwirio bod y rhai a adawodd yr ysgol ar ôl Blwyddyn 11 wedi ymgartrefu mewn addysg bellach, gwaith neu hyfforddiant, ac yn helpu unrhyw un sy'n dal yn ansicr ynghylch eu camau nesaf.

Fel rhan o'n gwaith i Lywodraeth Cymru, efallai y byddwn yn cysylltu â'ch plentyn i ddarganfod beth maen nhw wedi mynd ymlaen i'w wneud ar ôl Blwyddyn 11, 12 neu 13. Rydym hefyd yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i gael cyfweliad cyfarwyddyd gyrfaoedd cyn gadael addysg orfodol.

Yn y rhifyn hwn, fe welwch awgrymiadau ymarferol, adnoddau a straeon bywyd go iawn i'ch helpu i gynorthwyo'ch plentyn wrth gynllunio'u gyrfa.

O ddeall sut mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi sgiliau Cymraeg, ac edrych ar gyfleoedd mewn technolegau sy'n dod i'r amlwg fel deallusrwydd artiffisial, i ddysgu mwy am bynciau, gyrfaoedd a llwybrau'r dyfodol, rydym yma i'ch helpu chi a'ch plentyn i lywio'r flwyddyn sydd i ddod yn hyderus.





BLWYDDYN 8/9

Dewis pynciau

Os yw eich plentyn ym Mlwyddyn 9, mae'n debygol o ddewis pa bynciau i'w hastudio ym mlynyddoedd 10 ac 11 cyn bo hir.

Mae dewis pynciau TGAU yn gyfle gwych i siarad am ddiddordebau, cryfderau a nodau eich plentyn ar gyfer y dyfodol. Er y gallai ymddangos yn gynnar i feddwl am yrfa, gall y dewisiadau y mae'n eu gwneud nawr ddylanwadu ar yr opsiynau sydd ar gael iddo'n ddiweddarach, gan gynnwys cyrsiau coleg, pynciau Safon Uwch, prentisiaethau, cyflogaeth a phrifysgol.

Y newyddion da yw nad oes angen iddo gynllunio ei ddyfodol yn llawn eto. Mae dewis pynciau y mae'n eu mwynhau a bod ganddo gymhelliant i'w hastudio yn aml yn lle da i ddechrau.

Darllenwch ein canllaw i ddewis opsiynau.

BLWYDDYN 10

Adeiladu sylfeini cryf

Mae Blwyddyn 10 yn gyfnod pontio pwysig i Gyfnod Allweddol 4. Bydd eich plentyn yn ymgartrefu yn ei astudiaethau TGAU, yn datblygu arferion astudio da, ac yn dechrau archwilio ei ddiddordebau, ei gryfderau a'i uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

Gallwch chi helpu drwy wneud y canlynol:

- Annog arferion adolygu rheolaidd
- Siarad am bynciau mae'n eu mwynhau
- Ei helpu i archwilio syniadau gyrfa a gwybodaeth am y farchnad lafur
- Mynychu digwyddiadau gyrfaoedd yr ysgol lle bo modd

BLWYDDYN 11

Amserlen: beth sydd angen i chi ei wybod



Medi: Tymor newydd.

Anogwch eich plentyn i ddechrau meddwl am fywyd ar ôl Blwyddyn 11 wrth baratoi ar gyfer ei gyfweliad gyrfa.

P'un a yw'n ystyried y chweched dosbarth, coleg, prentisiaeth, hyfforddiant neu gyflogaeth, gall ei gynghorydd gyrfa yn yr ysgol ei helpu i edrych ar ei opsiynau a chynllunio. Gallwch gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau ar ôl ei gyfweliad.

Tachwedd: Paratowch ar gyfer ceisiadau.

Wrth i'ch plentyn ddechrau ei ffug arholiadau ym Mlwyddyn 11, mae'n amser da i feddwl am beth sy'n dod nesaf. Efallai y bydd y broses ymgeisio ar gyfer y chweched dosbarth, colegau, prentisiaethau a rhai rhaglenni hyfforddi yn dechrau agor.

Mae ein tudalen Opsiynau yn 16 oed yn rhoi gwybodaeth am y gwahanol lwybrau sydd ar gael. Ewch i'r wefan gyda'ch plentyn, defnyddiwch ein hoffer chwilio am bynciau a phrentisiaethau, a chewch yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud penderfyniadau gwybodus.

Gall cynorthwyo eich plentyn i ymchwilio i opsiynau a deall gofynion ymgeisio ei helpu i deimlo'n fwy hyderus a pharod.

Hydref: Amser dechrau cynllunio.

Mae sawl chweched dosbarth a choleg yn cynnal nosweithiau agored yn ystod tymor yr hydref. Mae'r digwyddiadau hyn yn gyfle gwych i'ch plentyn ddysgu mwy am gyrsiau, gofyn cwestiynau a chymharu gwahanol opsiynau.

Gall hefyd ddechrau chwilio am brentisiaeth a swyddi gwag lleol. Cofrestrwch ar gyfer ein bwletin swydd i gael cipolwg ar y mathau o swyddi sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol. Gallwch chi a'ch plentyn hefyd chwilio am swyddi gwag cyfredol yng Nghymru ar ein gwefan.

Rhagfyr: Popeth sydd ei angen arnoch i gynorthwyo eich plentyn.

Fel rhiant neu ofalwr, rydych chi'n chwarae rhan bwysig wrth helpu'ch plentyn i wneud penderfyniadau am ei ddyfodol. Mae adran rhieni ein gwefan yn dwyn ynghyd wybodaeth ymarferol, cyngor ac adnoddau i'ch helpu i ddeall opsiynau eich plentyn, cefnogi sgyrsiau gyrfa yn y cartref, a theimlo'n hyderus wrth ei dywys trwy benderfyniadau allweddol.

Ionawr i Fawrth: Parhewch i archwilio a gwneud ceisiadau.

Mae cwmnïau mwy yn dechrau hysbysebu eu cyfleoedd prentisiaeth. Anogwch eich plentyn i barhau i edrych ar gyfleoedd, cyflwyno ceisiadau a chadw cynllun wrth gefn mewn golwg.

Darganfyddwch ble i chwilio am brentisiaethau gwag a sut i wneud cais eich plentyn y gorau y gall fod. Sut i gael Prentisiaeth | Gyrfa Cymru

Gall cynghorydd gyrfa ei helpu i adolygu ei opsiynau a gwneud penderfyniadau gwybodus.

Mai: Cefnogi eich plentyn trwy gyfnod yr arholiadau.

Arholiadau TGAU yn dechrau. Helpwch eich plentyn i ddilyn cynllun adolygu, aros yn drefnus, a chynnal cydbwysedd iach rhwng astudio a chymryd seibiannau.

Gorffennaf: Cymorth os yw cynlluniau eich plentyn wedi newid.

Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi gwneud cais am eu cyrchfan ddewisol erbyn hyn. Os yw eich plentyn yn dal yn ansicr ynglŷn â beth i'w wneud nesaf neu os yw ei gynlluniau wedi newid, gallwn ei helpu i adolygu ei opsiynau a dod o hyd i'r llwybr iawn. Dylid ei annog i gysylltu â ni. Os oes gennych bryderon, gallwch chi hefyd gysylltu ag un o'n cynghorwyr gyrfa i drafod opsiynau eich plentyn.

Cysylltwch â ni.



Ebrill: Sut gall tîm Cymru'n Gweithio helpu.

Os oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn gwaith, hyfforddiant neu brentisiaeth, efallai y bydd Cymru'n Gweithio yn gallu darparu cymorth a chyfarwyddyd ychwanegol. Mae Cymru'n Gweithio yn rhan o Gyrfa Cymru. Gallwch gysylltu â thîm Cymru'n Gweithio yma.

Mehefin: Mae amser yn yr ysgol yn dod i ben.

Y dyddiad gadael ysgol yw'r Dydd Gwener olaf ym mis Mehefin, waeth pryd mae eich plentyn yn troi'n 16 oed. Ni all eich plentyn ddechrau prentisiaeth na rhaglen hyfforddi cyn y dyddiad hwn. Gall cynghorwyr Gyrfa Cymru gysylltu â'ch plentyn dros yr haf i wirio a chynnig cymorth gyda'i gamau nesaf.

Awst: Cymorth gyda'r canlyniadau.

Mae'r canlyniadau'n cael eu rhyddhau. Er y bydd llawer o bobl ifanc yn symud ymlaen â'u camau nesaf arfaethedig, gall canlyniadau newid cynlluniau weithiau. Mae cynghorwyr gyrfa ar gael yn yr ysgol, dros y ffôn, drwy e-bost, drwy neges destun neu yn eich canolfan gyrfa agosaf i drafod opsiynau i helpu eich plentyn i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch beth i'w wneud nesaf.

BLWYDDYN 12

Edrych ymlaen at Flwyddyn 13

Mae Blwyddyn 12 yn ymwneud ag ymgartrefu mewn cyrsiau dewisol a dechrau meddwl am gynlluniau tymor hwy. Gall y dewisiadau a wneir yn ystod y flwyddyn hon helpu i lunio cyfleoedd yn y dyfodol.

Gallwch chi ddarparu cymorth drwy wneud y canlynol:

- Annog presenoldeb yn yr ysgol neu'r coleg ac astudio annibynnol y tu allan i wersi
- Helpu eich plentyn i feithrin profiadau drwy wirfoddoli, cael lleoliadau gwaith neu gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol
- Edrych ar syniadau gyrfa gyda'ch gilydd
- Trafod opsiynau ar gyfer y dyfodol fel prifysgol, prentisiaethau neu gyflogaeth
- Mynychu diwrnodau agored mewn prifysgolion neu golegau a/neu ffeiriau gyrfaoedd

BLWYDDYN 13

Paratoi ar gyfer bywyd ar ôl Blwyddyn 13

Mae Blwyddyn 13 yn gyfnod pwysig wrth i'ch plentyn baratoi i gymryd ei gam nesaf ar ôl gadael yr ysgol neu'r coleg.

Gallwch chi gefnogi eich plentyn drwy wneud y canlynol:

- Cadw golwg ar derfynau amser pwysig, gan gynnwys gwaith cwrs a cheisiadau
- Edrych ar opsiynau prifysgol, gan gynnwys cyrsiau, gofynion mynediad, diwrnodau agored a chyllid myfyrwyr
- Edrych ar yr holl opsiynau sydd ar gael, nid y rhai sy'n ymwneud â'r brifysgol yn unig
- Dysgu am brentisiaethau, swyddi a llwybrau gyrfa eraill
- Ei helpu i baratoi ar gyfer ceisiadau a chyfweliadau
- Cael cynllun wrth gefn rhag ofn na fydd pethau'n mynd yn ôl y disgwyl

Gallwch ddysgu mwy am y penderfyniadau y mae pobl ifanc yn eu gwneud ym mlynyddoedd 7 i 13 a sut y gallwch chi eu cefnogi yma: Rhieni | Gyrfa Cymru



Ffocws ar y wefan

Gwybodaeth am swyddi a theclyn chwilio pynciau NEWYDD



Rydym wrth ein bodd yn cyhoeddi diweddariad i'n tudalennau Gwybodaeth am swyddi, gan gynnwys teclyn chwilio am bynciau newydd. Gwybodaeth am swyddi yw ein llyfrgell ar-lein o wybodaeth am yrfaoedd a'r farchnad lafur. Gallwch bellach chwilio am wybodaeth am dros **700 o deitlau swyddi** a phori gwybodaeth am rolau swyddi yn ôl diwydiant neu bwnc.

Gall pynciau fod yn ffordd wych o ddechrau edrych ar syniadau gyrfa, ac mae gennym dudalennau newydd ar ein gwefan i helpu i wneud hynny.

Os yw'ch plentyn yn mwynhau pwnc neu'n gwneud yn dda ynddo, gall ddefnyddio Pynciau sengl fel man cychwyn i edrych ar swyddi y gallai eu hoffi.



Mae 50 o bynciau gwahanol. Mae gan bob un wybodaeth am y sgiliau y mae'n eu datblygu, lle mae'r sgiliau hynny'n ddefnyddiol, a rhestr o swyddi sy'n gysylltiedig â nhw.

Mae gan bob swydd ei thudalen ei hun lle gallwch ddysgu mwy – fel beth mae'r rôl yn ei olygu, y cyflog, y cymwysterau sydd eu hangen, a sut i gael mynediad iddi.



Os yw'ch plentyn yn hoffi mwy nag un pwnc, bydd Pynciau niferus yn rhoi syniadau iddo am swyddi i edrych arnynt sy'n gysylltiedig â dau bwnc.

P'un a yw'n mwynhau ieithoedd, yn frwd am y celfyddydau perfformio, yn rhagori mewn peirianneg neu fod ganddo ddiddordebau eraill, beth am gael cipolwg gydag ef?

Mwy o offer digidol y gallech chi a'ch plentyn fod eisiau edrych arnynt gyda'ch gilydd:

- **Cwis Buzz**
  Parwch eich math o bersonoliaeth â swyddi addas.
- **Cwis Paru Gyrfa**
  Cewch syniadau gyrfa sy'n cyd-fynd â'ch sgiliau a'ch diddordebau.
- **Cwis Gwneud Penderfyniadau**
  Dysgwch am eich arddull gwneud penderfyniadau a sut i wneud penderfyniadau da.
- **Swyddi Dyfodol Cymru**
  Archwiliwch sectorau yng Nghymru. Darganfyddwch pa swyddi y gallech chi eu gwneud nawr ac yn y dyfodol.

Tueddiadau ym myd gwaith

Deallusrwydd artiffisial (AI) yr hyn sydd angen i chi ei wybod



Mae deallusrwydd artiffisial, neu AI, eisoes yn newid y ffordd y mae pobl yn gweithio. Mae'n debygol y bydd llawer o bobl ifanc ym myd addysg heddiw yn defnyddio AI nawr ac yn eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Ledled Cymru, mae AI yn cael ei ddefnyddio'n helaeth mewn diwydiannau fel iechyd, addysg, ffermio, ynni adnewyddadwy, cyllid, gwasanaeth cwsmeriaid a gweithgynhyrchu. Gall helpu pobl i arbed amser, deall gwybodaeth a gwneud penderfyniadau gwell.

Myth yw dweud **'na fydd 85% o'r swyddi a fydd yn bodoli yn 2030 wedi'u dyfeisio eto'**. Ffordd well o feddwl am hyn yw bod llawer o swyddi'n newid wrth i dechnoleg newydd ddod yn rhan o waith bob dydd.

Er enghraifft, mae athrawon, adeiladwyr a dylunwyr i gyd yn defnyddio offer gwahanol i'r rhai a ddefnyddiasant 25 mlynedd yn ôl. Ond nid yw prif bwrpas eu gwaith wedi diflannu. Mae eu gwybodaeth, barn a sgiliau trin pobl yn dal i fod yn bwysig.

Mae AI hefyd yn newid y sgiliau y mae cyflogwyr eu heisiau. Mae llawer o gyflogwyr bellach yn chwilio am bobl sy'n gallu defnyddio technoleg yn hyderus ac addasu i newid. Mae sgiliau digidol yn bwysig yn y rhan fwyaf o swyddi. Mae fideo Gyrfa Cymru ar 'Yr hyn y mae cyflogwyr ei eisiau' yn dweud bod tua 80% o swyddi gwag yn gofyn am sgiliau digidol.

Y newyddion da yw na all AI ddisodli llawer o'r sgiliau dynol. Mae cyflogwyr yn dal i werthfawrogi'r canlynol:

- Cyfathrebu
- Datrys problemau
- Creadigrwydd
- Gwaith tîm
- Meddwl yn feirniadol
- Hyblygrwydd
- Deallusrwydd emosiynol ac empathi

Gallwch chi helpu drwy annog eich plentyn i fod yn chwilfrydig am dechnoleg. Gallwch hefyd ei gynorthwyo i fagu hyder gydag offer digidol ac aros yn agored i ddysgu gydol oes.

Mae gan offer AI arbenigol y potensial i agor mynediad tecach at waith a datblygiad gyrfa i bobl anabl drwy leihau rhwystrau, personoli cymorth, a helpu unigolion i arddangos eu sgiliau.

Mae hefyd yn bwysig i bobl ifanc ddatblygu sgiliau AI cyfrifol. Mae hyn yn golygu gwybod sut i gwestiynu gwybodaeth a grëwyd gan AI, canfod rhagfarn bosibl, a phenderfynu pryd a sut y gellir ymddiried mewn technoleg.

Bydd pobl ifanc sy'n cyfuno hyder digidol â sgiliau dynol mewn sefyllfa dda ar gyfer y dyfodol. Bydd AI yn offeryn defnyddiol mewn llawer o swyddi, ond bydd creadigrwydd, empathi, barn a gwaith tîm yn parhau i wneud i bobl sefyll allan.

I gael mwy o wybodaeth am AI, gwyliwch ein fideo newydd Technoleg: Yr effaith ar eich byd gwaith.

I archwilio tueddiadau o ran gyrfaoedd, sgiliau a marchnad lafur y dyfodol yng Nghymru, ewch i Swyddi'r Dyfodol Cymru a Gwybodaeth am swyddi ar wefan Gyrfa Cymru.



Gwerth Cymraeg yn y Gweithle

A allai sgiliau Cymraeg eich plentyn helpu i lunio ei ddyfodol?

Yng Nghymru, gall siarad Cymraeg fod yn fantais wirioneddol wrth wneud ceisiadau am swyddi. P'un a yw'ch plentyn yn rhugl, yn dysgu Cymraeg, neu newydd ddechrau magu hyder, gallai ei sgiliau iaith ei helpu i sefyll allan ac agor drysau i gyfleoedd yn y dyfodol.

Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi'r Gymraeg ar draws ystod eang o sectorau ym mhob rhan o Gymru, a gall bod yn ddwyieithog ddod â manteision proffesiynol a chymdeithasol. Gallai annog eich plentyn i barhau i ddefnyddio a datblygu ei Gymraeg helpu i ehangu ei opsiynau gyrfa yn y blynyddoedd i ddod. Mae llawer o gyflogwyr yn ceisio cynyddu nifer y gweithwyr sy'n gallu darparu gwasanaethau'n ddwyieithog i gwsmeriaid.

Gwyliwch y fideos

Clywch gan bobl sy'n gweithio mewn amrywiaeth o ddiwydiannau wrth iddyn nhw rannu sut mae'r Gymraeg wedi bod o fudd iddyn nhw yn eu gyrfaoedd. Bydd y dolenni'n mynd â chi i sianel YouTube Gyrfa Cymru:



Gyrfa mewn Twristiaeth

Gyrfa yn y Sector Cyhoeddus

Gyrfa yn y Sector Iechyd

Gyrfa ym maes Cysylltiadau Cyhoeddus a Marchnata

Cymorth i ddysgwyr chweched dosbarth a choleg

Rydym yn darparu cymorth drwy gydol y flwyddyn os yw eich plentyn newydd ddechrau yn y chweched dosbarth neu'r coleg.
Un ffordd rydyn ni'n cynnig cymorth yw drwy ein hymgyrchoedd. Yn ystod tymor yr hydref, byddwn yn cynnal dwy ymgyrch:



- Mae **Diogelu dy ddyfodol** yn cynorthwyo eich plentyn wrth iddo ddechrau yn y chweched dosbarth neu'r coleg, gan ei helpu i ymgartrefu yn ei amgylchedd newydd, datblygu sgiliau, edrych ar syniadau gyrfa, a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael iddo.



- Mae **Aros. Paid rhoi'r gorau iddi** yn rhoi cyfarwyddyd i bobl ifanc a allai fod yn ansicr ynghylch eu cwrs, yn ystyried gadael addysg neu'n cwestiynu eu dewisiadau. Bydd ein cynghorwyr yn helpu eich plentyn i edrych ar yr holl opsiynau sydd ar gael cyn gwneud penderfyniadau pwysig.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn cydnabod y rôl bwysig rydych **chi'n** ei chwarae wrth gynorthwyo eich plentyn. Rydym yn cynnig gwybodaeth ac adnoddau i'ch helpu chi i ddeall opsiynau ôl-16, cael sgyrsiau cadarnhaol am yrfaoedd, a chefnogi'ch plentyn wrth iddo gynllunio ei ddyfodol.

Ffyrdd y gallwch chi helpu:

- **Gwrandewch a byddwch yn gefnogol**
  Anogwch eich plentyn i siarad am sut mae'n teimlo a'i helpu i addasu i'w amgylchedd newydd.
- **Rhannwch eich profiadau**
  Gall siarad am eich gwaith, addysg a phrofiadau bywyd eich hun helpu i fagu ei hyder a'i wydnwch.
- **Edrychwch ar opsiynau ar gyfer y dyfodol gyda'ch gilydd**
  P'un a yw'n ystyried mynd i'r brifysgol, cael prentisiaeth, ymgymryd ag astudio ymhellach neu gael gwaith, helpwch ef i edrych ar y cyfleoedd sydd ar gael.
- **Cynigiwch sicrwydd**
  Atgoffwch ef ei bod hi'n normal i deimlo'n nerfus a bod cymorth ar gael pan fydd ei angen arno.

Os hoffech chi neu'ch plentyn siarad â chynghorydd gyrfa, gallwch **drefnu apwyntiad yma.**

Stori dysgwr go iawn



Sut wnaethon ni helpu Grace i gymryd ei chamau cyntaf tuag at ddyfodol mewn ffiseg.

Roedd Grace yn gwybod ei bod hi'n mwynhau ffiseg, ond doedd hi ddim yn siŵr i ble y gallai ei harwain. Felly gwnaeth apwyntiad gyda'i chynghorydd gyrfa yn yr ysgol, Claire O'Brien.

Dywedodd Grace, "Roeddwn i'n gwybod bod gen i ddiddordeb mewn ffiseg yn ystod yr arholiadau TGAU. Doeddwn i ddim yn hollol siŵr i ble roeddwn i eisiau mynd â'r diddordeb hwnnw na pha bynciau Safon Uwch y dylwn i fod yn eu dewis. Felly es i i siarad â Claire."

Archwilio opsiynau

Ar y dechrau, roedd gan Grace ddiddordeb mewn peirianneg chwaraeon moduro. Yn ystod ei sesiynau gyrfaoedd, cafodd Grace help gan Claire i ystyried yr opsiwn hwn. Fe wnaethon nhw edrych ar leoliadau posibl.

Pan ddaeth hi'n bryd dewis ei phynciau Safon Uwch, anogwyd Grace gan Claire i gadw ei hopsiynau ar agor.

Esboniodd Grace, "Cefais gyngor gan Claire i ddewis hanner fy mhynciau Safon Uwch mewn ffiseg ac yna hanner arall fy mhynciau Safon Uwch mewn pwnc arall. Bioleg oedd y pwnc yma, ac roeddwn i rhwng dau feddwl am y ddau faes.

"Wrth wneud fy arholiadau Safon Uwch, sylweddolais mai astroffiseg oedd fy mhrif ddiddordeb. Roedd llawer gwell gen i hyn nag ochr peirianneg ffiseg."

Prifysgol a meithrin hyder

Wrth i Grace ddechrau meddwl am y brifysgol, parhaodd Claire i'w chefnogi. Helpodd Grace i ddod o hyd i gyfleoedd a fyddai'n cryfhau ei chais i'r brifysgol.

"Fe wnaeth hi fy nghyfeirio at rai ysgolion haf gyda phrifysgolion y gallwn wneud cais iddynt. Es i i un ym Mhrifysgol Caerdydd ac yna un ym Mhrifysgol Caerfaddon. Fe wnaeth hyn helpu fy nghais i'r brifysgol yn aruthrol."

"Rhoddodd Claire hwb i'm hyder yn bendant. Fe

Stori Grace



wnaeth hi fy annog i anelu at brifysgolion Grŵp Russell, sydd ag ymchwil o'r ansawdd uchaf. Dywedodd fod gen i'r perfformiad academaidd i wneud cais.

"Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig i mi, gan fy mod i nawr eisiau gweithio ym maes ymchwil yn y dyfodol."

Fe helpodd y cymorth hwn Grace i deimlo'n fwy hyderus ynglŷn â'r broses o ymgeisio i'r brifysgol hefyd.

"Mae proses UCAS yn eithaf brawychus drwyddi draw. Gwnaeth Claire hyn yn hawdd iawn, gyda rhestr wirio o'r hyn yr oedd angen i mi ei wneud."

Ysbrydoli eraill

Mae Grace bellach yn astudio ffiseg yn un o brifysgolion Grŵp Russell. Mae hi'n ymwybodol bod menywod yn dal i gael eu tangynrychioli yn y pwnc. Mae Grace wedi dod o hyd i gymorth drwy rwydweithiau'r brifysgol ac mae'n mwynhau annog myfyrwyr iau drwy waith allgymorth.

"Mae maes ffiseg yn gyffredinol yn cynnwys tua 70% o ddynion a 30% o fenywod, a all fod braidd yn frawychus. Dw i'n meddwl ei bod hi'n wirioneddol bwysig i ferched iau weld merched eraill yn rhagori mewn gwyddoniaeth."



Cyngor i eraill

Mae cyngor Grace i unrhyw un sy'n ansicr ynglŷn â siarad â chynghorydd gyrfa yn syml:

> ***Rhowch gynnig arno. Ni all dim byd drwg ddigwydd os ewch chi. Mwy o wybodaeth a mwy o gymorth a gewch chi yn y pen draw. Fe welwch chi gyfleoedd nad oeddech chi o bosibl yn gwybod amdanyn nhw o'r blaen.***

Os hoffech chi edrych ar eich diddordebau a'ch cyfleoedd gyda chynghorydd gyrfa, cysylltwch â ni heddiw.

Crynodeb o'n digwyddiadau dros yr haf

Sioe Frenhinol Cymru 2026: Pedwar diwrnod prysur yn Llanfair-ym-Muallt

Mynychodd Gyrfa Cymru Sioe Frenhinol Cymru eleni, gan siarad â dros 800 o ymwelwyr dros y pedwar diwrnod. Roedd y stondin yn brysur drwy gydol yr wythnos, gydag ymwelwyr yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau rhyngweithiol, gan gynnwys Pong Gyrfaoedd, Jenga Enfawr, CrefftGyrfaoedd a'n propiau gwisgo i fyny poblogaidd. Helpodd y gweithgareddau hyn ymwelwyr ifanc a theuluoedd i edrych ar yrfaoedd mewn ffordd hwyliog a diddorol.

Roeddem hefyd wrth ein bodd yn gweithio ochr yn ochr â Lantra Cymru, gan hyrwyddo cyfleoedd gyrfa mewn garddwriaeth, coedwigaeth a'r economi werdd ehangach.

Os oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn gyrfa sy'n seiliedig ar y tir, edrychwch ar ein hadnodd defnyddiol: Tyfwch eich gyrfa yn y Diwydiant Amaethyddiaeth, Tir a'r Amgylchedd

Eisteddfod Genedlaethol 2026: Gyrfa Cymru yn ymuno â dathliad iaith a diwylliant mwyaf Cymru

Mynychodd Gyrfa Cymru yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, gan ymgysylltu ag ymwelwyr â'n stondin drwy gydol yr wythnos. Cymerodd ymwelwyr ran mewn amrywiaeth o weithgareddau rhyngweithiol, gan gynnwys CrefftGyrfaoedd, gemau lawnt, cwisiau a chyfleoedd tynnu lluniau ar thema gyrfaoedd, gan helpu pobl o bob oed i edrych ar eu hopsiynau gyrfa yn y dyfodol.

Roedd ein cynghorwyr wrth law i roi gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd i bobl ifanc, rhieni ac oedolion sy'n ystyried eu camau nesaf. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo gwerth sgiliau Cymraeg yn y gweithle ac arddangos gyrfaoedd yn y diwydiannau creadigol drwy sesiwn holi ac ateb gydag S4C a Screen Alliance Wales.

Darllenwch fwy am y Gymraeg yn y gweithle yma.







Stephen Williams
Rheolydd Tîm gyda Gyrfa Gymru, yn rhannu pam nad yw fyth yn rhy hwyr i newid gyrfa

Ar ôl 17 mlynedd mewn rheolaeth manwerthu, gan gynnwys rolau fel Dirprwy Reolwr Siop yn Tesco a Morrisons, sylweddolodd Stephen mai'r rhan o'r swydd yr oedd yn ei mwynhau fwyaf oedd helpu pobl i ddatblygu a chyflawni eu nodau. Gan ei fod am ganolbwyntio mwy ar gefnogi unigolion, siaradodd â chynghorydd gyrfa. Helpodd y sgwrs honno ef i gydnabod y sgiliau trosglwyddadwy yr oedd wedi'u hennill drwy fanwerthu ac agorodd ei lygaid i gyfleoedd nad oedd erioed wedi'u hystyried o'r blaen.

Wedi'i ysbrydoli gan y canllawiau hynny, gwnaeth Stephen gais am rôl cynghorydd gyrfa gyda Gyrfa Cymru. Roedd y rôl yn ffitio'n naturiol, gan gyfuno ei frwdfrydedd dros helpu pobl â'i brofiad o hyfforddi, cefnogi a datblygu eraill.

Cyflawni'r newid

Nid oedd newid gyrfa heb ei heriau. Roedd cymryd cam yn ôl yn ariannol a gadael sefydliad cyfarwydd ar ôl blynyddoedd lawer yn benderfyniad anodd. Fodd bynnag, roedd Stephen yn gwybod y byddai symud yn dod â mwy o foddhad swydd hirdymor. Bu'n rhaid iddo hefyd addasu i weithle newydd a meithrin perthnasoedd proffesiynol newydd, ond cafodd gefnogaeth gan gydweithwyr yn gyflym.

I gymhwyso fel cynghorydd gyrfa, cwblhaodd Stephen gymwysterau Lefel 4 a Lefel 6 mewn Cyngor a Chyfarwyddyd wrth barhau i weithio. Yn debyg iawn i brentisiaeth, roedd y rôl yn cyfuno profiad ymarferol â dysgu ffurfiol.

Mae llawer o'r sgiliau a ddatblygodd ym maes manwerthu yn parhau i'w helpu heddiw, gan gynnwys arweinyddiaeth, cyfathrebu, trefnu a meithrin perthnasoedd. Un o'r pethau mwyaf annisgwyl oedd darganfod pa mor arbenigol yw cyfarwyddyd gyrfaoedd. Yn hytrach na rhoi cyngor yn unig, mae'r rôl yn cynnwys deall cymhellion, heriau a dyheadau pobl, yna eu helpu i greu cynllun realistig ar gyfer eu dyfodol.



Stephen Williams

Teitl Swydd

Rheolydd Tîm Gyrfa Cymru

O gynghorydd gyrfa i rheolydd tîm

Dechreuodd Stephen ei daith gyda Gyrfa Cymru fel cynghorydd gyrfa i oedolion cyn gweithio gydag ysgolion, colegau addysg bellach a gwasanaethau arbenigol. Ar hyd y ffordd, enillodd ddealltwriaeth eang o'r sefydliad a'r gwahanol ffyrdd y mae'n cefnogi pobl ledled Cymru.

Er nad oedd dod yn rheolydd tîm erioed yn rhan o'i gynllun gwreiddiol, cofleidiodd y cyfleoedd newydd pan godasant. Ar ôl ennill profiad gwerthfawr mewn rolau rheoli dros dro a swyddi cynghorydd arbenigol, gan gynnwys cefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, llwyddodd i sicrhau swydd rheolydd tîm barhaol.

Erbyn hyn, nid oes dau ddiwrnod yr un fath. Mae ei rôl yn cynnwys cynorthwyo staff, adolygu perfformiad, arwain prosiectau a helpu i wella gwasanaethau. Yr hyn y mae'n ei fwynhau fwyaf yw helpu cydweithwyr i oresgyn heriau, datblygu eu sgiliau a symud ymlaen yn eu gyrfaoedd eu hunain. Mae hefyd yn gwerthfawrogi ffocws cryf Gyrfa Cymru ar lesiant staff, sy'n ei alluogi i gynorthwyo â pherfformiad a phobl.

Stephen Williams

Teitl Swydd
Rheolydd Tîm Gyrfa Cymru

Sgiliau, dysgu a chyngor i eraill

Mae Stephen yn credu na ddylid byth tanamcangyfrif y sgiliau a gafwyd mewn gyrfaoedd blaenorol. Mae arweinyddiaeth, datrys problemau, hyfforddi, cyfathrebu ac ennill ymddiriedaeth pobl i gyd wedi bod yn hanfodol drwy gydol ei daith yrfa.

Un o'r gwersi mwyaf y mae wedi'i dysgu yw nad oes un dull sy'n addas i bawb. Mae gan bawb wahanol nodau, cymhellion a heriau, a dyna pam mae deall pobl a gwrando'n ofalus mor bwysig.

Wrth edrych yn ôl, mae Stephen yn fwyaf balch o gael yr hyder i fentro ar rywbeth newydd. Er bod newid gyrfa yn heriol, fe ganiataodd iddo adeiladu gyrfa sy'n adlewyrchu ei werthoedd ac yn rhoi'r cyfle iddo wneud gwahaniaeth cadarnhaol bob dydd.

Mae ei gyngor i unrhyw un sy'n ystyried newid gyrfa yn syml: meddyliwch am y rhannau o'ch rôl bresennol rydych chi'n eu mwynhau fwyaf, cydnabyddwch werth eich sgiliau trosglwyddadwy, a cheisiwch gyngor gyrfa proffesiynol. Gwnaeth siarad â chynghorydd gyrfa ei helpu i edrych ar gyfleoedd nad oedd erioed wedi'u hystyried a rhoi'r hyder iddo gymryd y cam nesaf.

Fel gweithiwr Gyrfa Cymru, mae Stephen yn mwynhau'r amrywiaeth a ddaw bob dydd. Mae'n gwerthfawrogi'r cyfle i ymgymryd â rolau newydd a gwahanol, gweithio'n annibynnol ac yn hyblyg, a defnyddio ei sgiliau Cymraeg a Saesneg. Yn bwysicaf oll, mae'n cael boddhad mawr o wybod bod ei waith yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau cwsmeriaid.

Pan ofynnwyd iddo grynhoi ei daith mewn tri gair, dewisodd Stephen:

> **"Heriol, boddhaol a gwerthfawr."**





Os ydych chi'n meddwl yr hoffech chi weithio i Gyrfa Cymru, cadwch lygad am ein swyddi gwag yma.

Cymru'n Gweithio

Cymru'n Gweithio
Working Wales

Rhieni:

Yn chwilio am waith, am newid gyrfa, neu'n dychwelyd ar ôl seibiant? Dewch o hyd i'r cymorth sydd ei angen arnoch i symud ymlaen yn hyderus.



Yn ogystal â chefnogi'r rhai sy'n gadael yr ysgol a'r coleg, gall Cymru'n Gweithio ddarparu cymorth diduedd am ddim i chi, beth bynnag fo'ch sefyllfa.

Gall ein tîm o gynghorwyr eich helpu i archwilio cyfleoedd, datblygu eich sgiliau, cael mynediad at hyfforddiant, dod o hyd i waith, symud ymlaen yn eich gyrfa a chyflawni eich nodau.

Felly, os ydych chi'n chwilio am waith, eisiau newid gyrfa, yn wynebu diswyddiad neu wedi cael eich diswyddo, mae Cymru'n Gweithio yma i'ch helpu i gymryd eich cam nesaf yn hyderus. Beth bynnag fo'ch amgylchiadau, byddwn yn eich cynorthwyo i ddod o hyd i'r llwybr cywir ymlaen.

Gallwch gael cymorth am ddim mewn canolfan Gyrfa Cymru gan Cymru'n Gweithio, mewn lleoliadau allgymorth, dros y ffôn neu'n ddigidol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn Cymru'n Gweithio neu drefnu apwyntiad yma.

Diolch am ddarllen ein cylchlythyr. Gobeithiwn fod y cylchlythyr wedi bod yn ddefnyddiol i chi. Cofiwch, mae Gyrfa Cymru yma i'ch cynorthwyo chi a'ch plentyn ym mhob cam o'i daith ddysgu a gyrfa.

Cysylltwch â ni:

- Gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfa yn yr ysgol neu drwy ffonio **0800 028 4844**
- Mae gennym gyfleuster sgwrsio byw Cymru gyfan ar gael drwy **www.gyrfacymru.llyw.cymru**
- Galwch heibio i un o'n **canolfannau gyrfa**
- Anfonwch neges ebost i **post@gyrfacymru.llyw.cymru**

Dilynwch Gyrfa Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government